

Aseiad Taliad Annibyniaeth Personol – Yr Ail Adolygiad Annibynnol

Galwad am Dystiolaeth

Gorffennaf 2016

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Yr alwad hon am dystiolaeth.....	3
Ar gyfer pwy mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i anelu?.....	3
Pwrpas yr alwad am dystiolaeth.....	3
Cwmpas yr alwad am dystiolaeth.....	3
Cyfnod yr alwad am dystiolaeth.....	3
Sut i ymateb.....	4
Fformatau amgen.....	4
Ymholiadau am yr alwad am dystiolaeth.....	4
Sut rydym yn cynnal galwadau am dystiolaeth.....	5
Rhyddid gwybodaeth.....	5
Terminoleg.....	5
Rhagair gan Paul Gray.....	6
Cyswllt.....	8
Cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol.....	8
Y broses hawlio Taliad Annibyniaeth Personol.....	8
Adolygiad Annibynnol cyntaf yr Aseiad Taliad Annibyniaeth Personol.....	9
Ail Adolygiad Annibynnol yr Aseiad Taliad Annibyniaeth Personol.....	9
Cwestiynau.....	11
Cwestiynau ar gyfer unigolion sydd wedi hawlio PIP ar gyfer eu hunain neu ar ran rhywun.....	11
Amdanoch chi.....	11
Tystiolaeth bellach.....	11
Rhannu data.....	12
Profiad yr hawlydd.....	13
Cwestiynau ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd â phrofiad o'r broses PIP....	14
Amdanoch chi.....	14
Tystiolaeth bellach.....	14
Rhannu data.....	15
Profiad yr hawlydd.....	16
Cynnydd ers yr adolygiad diwethaf.....	16

Cyflwyniad

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi comisiynu Paul Gray i gynnal yr ail Adolygiad Annibynnol o sut y mae'r asesiad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn gweithio, fel sy'n ofynnol gan Adran 89 y Ddeddf Diwygio Lles 2012. Bydd y alwad am dystiolaeth hon yn un o nifer o ddulliau a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth. Bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn cael ei defnyddio i hysbysu adroddiad annibynnol terfynol a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd.

Yr alwad am dystiolaeth

Ar gyfer pwy mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i anelu?

Mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i anelu at sefydliadau ac unigolion sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'r asesiad PIP yn gweithredu ar gyfer ceisiadau newydd a cheisiadau ailasesu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA). Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol.

Mae gennym ddi-ddordeb mewn barn pawb, felly rhowch cymaint o dystiolaeth ag y gallwch ar y cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen hon. Rydym yn gwybod y bydd gan bobl a sefydliadau lefelau gwahanol o brofiad o'r broses PIP, felly peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi ateb cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i chi, er enghraifft pan nad oes gennych brofiad personol.

Pwrpas yr alwad am dystiolaeth

Bydd yr alwad hon am dystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio casgliadau'r Adolygydd Annibynnol. Bydd yr Adolygydd Annibynnol wedyn yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd ar ffurf adroddiad y bydd y Llywodraeth yn cynhyrchu ymateb iddo.

Cwmpas yr alwad am dystiolaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Cyfnod yr alwad am dystiolaeth

Mae cyfnod yr alwad am dystiolaeth yn dechrau ar 11^{eg} Gorffennaf ac yn parhau hyd nes dydd Gwener, 16^{eg} Medi 2016 am 5pm.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb drwy [ffurflen ar-lein](#).

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r ffurflen ar-lein, defnyddiwch un o'r dulliau canlynol:

E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

Post: PIP Independent Review Team, Department for Work and Pensions, Floor 4
Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

Sicrhewch fod eich ymateb yn cyrraedd erbyn 5pm ar ddydd Gwener, 16^{eg} Medi 2016.

Byddwn yn cydnabod eich ymateb. Nodwch ni all y Tîm Adolygu Annibynnol PIP ymateb i ymholiadau cwsmeriaid unigol am eu cais am PIP.

Fformatau amgen

Mae'r alwad hon am dystiolaeth ar gael mewn fformatau amrywiol, gan gynnwys print bras, Easy Read, awdio, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), Braille, CDau a DVDau BSL.

I wneud cais am y fformatau hyn, cysylltwch â:

E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

Post: PIP Independent Review Team, Department for Work and Pensions, Floor 4
Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

Ymholiadau am yr alwad am dystiolaeth

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau am yr alwad hon am dystiolaeth at:

Post: PIP Independent Review Team, Department for Work and Pensions, Floor 4
Caxton House, Tothill Street, London, SW1H 9NA

E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk

Sut rydym yn cynnal galwadau am dystiolaeth

Rhyddid gwybodaeth

Efallai y bydd angen i'r wybodaeth a anfonwch atom gael ei drosglwyddo i gydweithwyr o fewn DWP, ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd ac y cyfeirir atynt yn yr adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd.

Gall yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer galwad am dystiolaeth, deellir eich bod yn rhoi caniatâd i'w datgelu a'i chyhoeddi. Os nad yw hyn yn wir, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb cael ei gadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau i wneud hyn.

I gael gwybod mwy am egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut y maent yn cael eu cymhwyso o fewn DWP, cysylltwch â:

Freedom of Information Team
Caxton House
6-12 Tothill Street
London
SW1H 9NA
Freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk

Ni all y tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog cyngori ar yr ymarfer penodol galwad am dystiolaeth, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn www.dwp.gov.uk/freedom-of-information

Terminoleg

Pan fyddwn yn defnyddio'r gair "cyflwr" yn y ddogfen hon, rydym yn golygu anabledau, cyflyrau iechyd a namau. Rydym yn defnyddio "cyflwr" yn fyr.

Rhagair gan Paul Gray

Dyma ail Adolygiad Annibynnol y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), yn dilyn fy Adolygiad cyntaf yn 2014, ac yn unol â'r amserlenni a sefydlwyd gan y Ddeddf Diwygio Lles 2012. Cynhaliwyd yr Adolygiad cyntaf yn gynnar yn y broses o weithredu PIP, yn ystod cyfnod o oedi ac ôl-groniadau hir yn y broses asesu. Cymerais farn gynnar ni fyddai'r ôl-groniad ei hun, a gwaith adfer yr Adran i'w glirio, yn fy mhrif ffocws – yr hyn a oedd yn teimlo fwyaf priodol a hanfodol ar gyfer lles y cyhoedd oedd cyfres o argymhellion wedi'u cyfeirio at weithrediad hirdymor y budd-dal.

Mae gweithredu PIP yn awr wedi datblygu'n ymhellach, gyda gwythiennau newydd o ddata a thystiolaeth ynghylch ei weithrediad yn agor i fyny, ac rwyf yn falch o gael y cyfle i adeiladu ar waith yr Adolygiad cyntaf. Yn ogystal, rwyf yn hapus i nodi yn dilyn fy argymhelliad cynharach i roi strategaeth werthuso meintiol ac ansoddol trylwyr yn eu lle i archwilio profiad hawlwr o PIP, mae'r Adran wedi cyhoeddi ei bwriad i roi hyn ar waith, gyda chanfyddiadau cychwynnol i gael eu cyhoeddi erbyn dechrau 2017. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â'r Adolygiad Annibynnol a gall helpu i lywio fy nghasgliadau terfynol; bydd uchelgais a rennir yr Adolygiad ac ymchwil yn lledu persbectif ynghylch effaith PIP a sail dystiolaeth gynhwysfawr i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y ffordd orau o'i gyflawni.

Un o amcanion pwysig yr adolygiad hwn fydd asesu effaith 'tystiolaeth bellach' ar ddod i benderfyniadau hawl sy'n wir adlewyrchu anghenion hawlwr ac effeithiau swyddogaethol o ddydd i ddydd eu cyflwr. Rwy'n bwriadu ystyried, er enghraifft, sut y mae dystiolaeth bod hawllydd PIP eisoes wedi'i dderbyn, fel cynllun gofal neu adroddiad arbenigol gan weithiwr iechyd proffesiynol, yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gynorthwyo penderfyniad y cais, ac ym mha achosion y gall hyn cael eu gweithredu fel dewis arall i ymgynghoriadau wyneb-yn-wyneb. Bydd yr Adolygiad hwn hefyd yn ystyried sut y gall y data gael ei rannu'n well ar draws yr Adran a chyda chyrrff allanol, fel y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i gefnogi'r broses hawllo. Yn olaf, rwyf yn bwriadu defnyddio'r Cylch Gorchwyl fel fframwaith i ganiatáu i mi gymryd golwg ehangach ar PIP a deall ansawdd a chysondeb asesiadau a phrofiad yr hawllydd yn ystod pob cam o'r broses.


Wrth gyrraedd fy nghasgliadau ac argymhellion terfynol, rwyf yn bwriadu siarad ag ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys hawlwr, gofalwr, sefydliadau elusennol a chyflogwyr. Yn benodol, rwyf yn awyddus i siarad ag ystod lawn o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael eu galw arnynt yn aml i ddarparu dystiolaeth ychwanegol, berthnasol i gefnogi cais am PIP.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth wedi'i rhannu'n ddwy i sicrhau bod ymatebion yn canolbwyntio ar rannau o'r broses PIP y bydd eu cyfranwyr yn debygol o fod yn gyfarwydd â hwy. Gofynnir cwestiynau i hawlwr PIP y gorffennol a'r presennol sy'n ceisio defnyddio eu profiadau wrth wneud cais, cael asesiadau a derbyn y penderfyniad dyfarniad terfynol; tra gofynnir i sefydliadau sydd â phrofiad o'r broses PIP neu gynrychiolwyr hawlwr am eu barn am ddibynadwyedd, argaeledd ac effaith gwahanol

fathau o dystiolaeth, yn ogystal ag atebion technegol sy'n gwella'r defnydd o TG, cyfnewid-data ac effeithiolrwydd y broses o gasglu gwybodaeth.

Yn olaf, gall unrhyw adolygiad ond fod cystal ag ansawdd y dystiolaeth y mae'n seiliedig arno. Wrth lansio'r alwad hon am dystiolaeth, rwy'n gobeithio y bydd pawb sy'n gallu rhoi dystiolaeth a dadansoddiad perthnasol a chadarn i mi yn gwneud hynny. Byddaf yn defnyddio hyn i wneud argymhellion, lle rwy'n gweld bod eu hangen, ar ddatblygiad PIP yn y dyfodol.

Diolch ymlaen llaw am eich help.



Paul Gray
Gorffennaf 2016

Cyswllt

Cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol

Pan wnaeth Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ym mis Ebrill 2013, dilynodd cyfnod lle nad oedd DLA wedi cael ei ddiwygio'n sylfaenol ers ei chyflwyno bron i 25 mlynedd yn ôl. Bwriad a nodwyd gan y Llywodraeth oedd datblygu budd-dal newydd a oedd yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o anabledd ac yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y dyfodol.

Mae PIP wedi'i gynllunio i gynnal egwyddorion allweddol DLA. Mae'n helpu tuag at rai o'r costau ychwanegol sy'n deillio o gyflwr tymor hir. Mae'n seiliedig ar sut y mae cyflwr rhywun yn effeithio arnynt, nid y cyflwr sydd ganddynt. Nid yw'n destun i brawf modd na threth ac mae'n daladwy i bobl sydd mewn ac allan o waith. Mae PIP yn cynnwys dwy elfen – yr elfen bywyd bob dydd a ii) yr elfen symudedd. Mae gan bob elfen dwy gyfradd: cyfradd safonol a chyfradd uwch. Os oes gan hawlydd yr hawl i PIP, byddant yn cael un neu ddwy elfen. Mae'r elfennau y mae pobl yn eu derbyn yn dibynnu ar sut mae eu cyflwr yn effeithio arnynt.

Dechreuodd PIP ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pobl gymwys 16 i 64 oed o 8 Ebrill 2013. I ddechrau roedd hyn ond yn berthnasol i geisiadau newydd, ond cafodd ei ymestyn yn raddol o fis Hydref 2013 i gategori cyfyngedig o dderbynwyr DLA: pobl oedd yn cyrraedd 16 oed, pobl oedd yn hysbysu am newid mewn amgylchiadau, y rhai oedd yn dewis hawlio PIP ac yn olaf pobl lle'r oedd eu dyfarniad tymor penodol yn dod i ben. Ym mis Gorffennaf 2015, dechreuodd yr Adran gyflwyno ailasesiad fesul cam o bob derbynwyr oedran gweithio DLA ar gyfer PIP.

Y broses hawlio Taliad Annibyniaeth Personol

Mae gwybodaeth am PIP, a sut i hawlio, ar gael ar-lein yn GOV.UK ([/www.gov.uk/pip](http://www.gov.uk/pip)).

Mae gwybodaeth gyffredinol am PIP ar gyfer sefydliadau cymorth ac ymgynghorwyr wedi'i chynnwys mewn Pecyn Offer PIP (www.gov.uk/government/publications/the-personal-independence-payment-toolkit-for-partners/the-personal-independence-payment-pip-toolkit). Mae hyn yn cynnwys taflenni ffeithiau, llythyrau PIP enghreifftiol a thestun awgrymedig i'w defnyddio mewn cyfathrebu a chanllawiau cyrff eu hunain.

Adolygiad Annibynnol cyntaf yr Asesiad Taliad Annibyniaeth Personol

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol i osod gerbron y Senedd adroddiad annibynnol ar weithrediad asesiadau; (a) o fewn 2 flynedd gan ddechrau ar y dyddiad y daeth y rheoliadau cyntaf o dan yr adran honno i rym; a (b) o fewn 4 mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol PIP cyntaf ar 17 Rhagfyr 2014. Roedd yn canolbwyntio ar dri phrif faes: gwella profiad yr hawlydd, egluro a gwella'r broses o gasglu tystiolaeth bellach a sicrhau tegwch a chysondeb o ganlyniadau dyfarnu PIP.

Canfu'r adroddiad fod y broses PIP ar y pryd yn rhoi profiad digyswllt i hawlwyd. Gwnaeth argymhell rhai gwelliannau tymor byr, er enghraifft, i gyfathrebu gan gynnwys llythyrau penderfyniad. Yn y tymor hirach gwnaeth argymhell y dylid cael proses hawlio mwy integredig, a weithredir yn ddigidol dan frandio cyffredin a fyddai'n gwella effeithiolrwydd a phrofiad ac yr hawlydd.

Yn ogystal, canfu y gallai'r ffordd yr oedd tystiolaeth bellach yn cael ei chasglu cael ei egluro a'i wella. Argymhellodd hefyd y dylai strategaeth werthuso drylwyr cael ei rhoi ar waith gyda chynllun trefnu ar gyfer cyhoeddi canfyddiadau ac sy'n cynnwys ffocws ar effeithlonrwydd asesiadau PIP ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl neu anabledd dysgu.

Gwnaeth ymatebion cyntaf ac ail y Llywodraeth dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adolygiad.

Ail Adolygiad Annibynnol yr Asesiad Taliad Annibyniaeth Personol

Ym mis Gorffennaf 2016 cyhoeddwyd Paul Gray fel yr Adolygydd ar gyfer yr ail Adolygiad Annibynnol o PIP. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei osod gerbron y Senedd erbyn mis Ebrill 2017, yn unol â'r Ddeddf.

Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau adroddiad annibynnol sy'n gwerthuso'r cynnydd a wnaed yn y broses hawlio PIP o ganlyniad i'r argymhellion tymor hir a wnaed yn Adolygiad Annibynnol cyntaf yr asesiad PIP, yn arbennig yn edrych ar:

- y defnydd o TG a chyflymder ac effeithiolrwydd y broses o gasglu gwybodaeth yn ystod yr asesiad, gan edrych ar rannu data o fewn yr Adran ac ar draws llywodraeth, gan gynnwys y ffordd y mae gwybodaeth a gafwyd o'r asesiad PIP yn cael ei rhannu gyda sefydliadau eraill i wella gwasanaethau iechyd a gofal;
- pa mor effeithiol y mae tystiolaeth bellach yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r penderfyniad cais cywir, gan archwilio'r cydbwysedd rhwng faint a'r math o

dystiolaeth y mae DWP yn ei ffynnonelli a'r hyn a gofynnir i'r hawlydd ei darparu;
ac

- adeiladu ar yr argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad cyntaf gan ddefnyddio, lle y bo'n berthnasol, canfyddiadau o'r gwerthusiad a data Cyflwyno Llawn PIP.

Mae'r cwestiynau sy'n dilyn yn yr alwad hon am dystiolaeth yn canolbwyntio yn benodol ar y defnydd o dystiolaeth bellach yn y broses hawlio, rhannu data a phrofiad yr hawlydd.

Cwestiynau

Rydym yn gwahodd unigolion a sefydliadau i gyflwyno tystiolaeth i'n helpu i asesu sut mae PIP yn gweithredu trwy ateb y cwestiynau canlynol. Mae'r set o gwestiynau y dylech ateb yn dibynnu ar p'un a:

- a) ydych yn unigolyn sydd wedi hawlio PIP i chi eich hun neu ar ran rhywun;
- b) rydych yn unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb proffesiynol yn y broses PIP.

Cwestiynau ar gyfer unigolion sydd wedi hawlio PIP ar gyfer eu hunain neu ar ran rhywun

Amdanoch chi

1. Ydych chi'n ymateb fel:

- Rhywun sydd wedi hawlio PIP i chi eich hun?
- Ffrind, gofalwr neu aelod o'r teulu sy'n gweithredu ar ran rhywun sy'n hawlio PIP?
- Well gen i beidio â dweud

2. O ble arall ydych chi/y sawl sy'n cael PIP yn cael cymorth i helpu i reoli eich/eu cyflwr?

- Meddyg Teulu
- Meddyg yn yr ysbyty
- Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill (e.e. nyrs seiciatrig arbenigol, therapydd galwedigaethol)
- Gweithiwr cymdeithasol
- Well gen i beidio â dweud
- Arall (nodwch)

3. Gan bwy wnaethoch chi/y sawl sy'n cael PIP dderbyn cymorth ganddynt i gyflwyno eich/eu cais?

- Gofalwr
- Aelod o'r teulu
- Ffrind
- Sefydliad cymorth (e.e. y ganolfan Cyngor ar Bopeth)
- Gweithiwr proffesiynol gofal iechyd neu gymdeithasol
- Arall (nodwch)

4. Efallai y byddwn am ddilyn i fyny mwy o wybodaeth gyda chi neu ddyfynnu eich tystiolaeth yn ein hadroddiad. Os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi, rhowch y manylion canlynol:

- **Enw**
- **Cyfeiriad**
- **E-bost**
- **Rhif ffôn**

Tystiolaeth bellach

Yn ystod y broses hawlio PIP, gofynnir i geiswyr ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol neu wybodaeth sydd ganddynt eisoes sy'n esbonio eu hamgylchiadau (a elwir yn dystiolaeth bellach). Gall hawlwr anfon tystiolaeth ategol gyda'u ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Gallai tystiolaeth gynnwys:

- rhestrau presgripsiwn
- cynlluniau gofal
- adroddiadau neu wybodaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n cynorthwyo'r hawlydd, fel meddyg teulu, meddyg yn yr ysbyty, nyrs arbenigol, nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol, ymgynghorydd neu weithiwr cymorth.

Os yw'n briodol wrth gynnal asesiad a darparu cyngor ar gais i DWP, gall gweithwyr proffesiynol iechyd Atos a Capita ystyried gofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn eu cynorthwyo gan bobl a restrir ar ffurflen yr hawlydd. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau yn gofyn am ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb, ond gall rhai asesiadau gael eu cwblhau ar sail adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar bapur. Rydym yn ymchwilio:

- pa mor effeithiol y mae tystiolaeth bellach yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r penderfyniad cywir ar y cais a nodi a oes angen ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb
- y cydbwysedd rhwng faint a'r math o dystiolaeth y mae DWP yn ei ffynnonelli a'r hyn y gofynnir i'r hawlydd ddarparu.

5. Yn ogystal â'ch ffurflen gais, a wnaethoch anfon unrhyw dystiolaeth bellach fel rhan o'ch cais? Os felly, beth?

6. A oedd yn glir pa dystiolaeth bellach y dylech neu na ddylech anfon i mewn? Esboniwch eich ateb yn fyr.

7. Pan wnaethoch gyflwyno'ch cais, pa mor bwysig yn eich barn oedd hi i gyflwyno tystiolaeth bellach? Pam?

8. Ble'r oedd gennych fynediad i dystiolaeth ychwanegol, pa mor hawdd oeddech chi'n gallu cyflwyno'r dystiolaeth hon? Esboniwch eich ateb yn fyr.

9. Os gwnaethoch fynd drwy'r system apeliadau, a wnaethoch chi ddarparu tystiolaeth bellach? Esboniwch eich ateb yn fyr.

Rhannu data

Rydym yn edrych ar p'un a ddylid rhannu data pellach ar draws yr Adran a chyda cyrff allanol, fel y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i gefnogi'r broses hawlio a gwella'r gefnogaeth a gynigir i hawlwyr. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng systemau budd-daliadau DWP, er enghraifft, rhannu adroddiadau Asesiad Gallu i Weithio diweddar gyda gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar PIP. Gallai hefyd gynnwys casglu gwybodaeth o asesiadau gofal cymdeithasol neu ddarparwyr gofal iechyd. Byddai angen i'r wybodaeth bersonol fod yn ddarostyngedig i ddiogelu data priodol, fel y nodir yn Siarter Gwybodaeth Bersonol DWP.

- 10. Ydych chi'n flaenrol wedi cyflwyno tystiolaeth arall i'r Adran Gwaith a Phensiynau e.e. o geisiadau budd-dal blaenorol, roeddech o'r farn ei fod yn berthnasol neu a ddylai wedi cael ei ystyried yn y cais am PIP? Os felly, beth?**
- 11. A oes rhannau eraill o'r llywodraeth (e.e. y GIG, gwasanaethau cymdeithasol) sy'n cadw gwybodaeth amdanoch rydych yn teimlo oedd yn berthnasol neu a ddylai wedi cael ei ystyried yn eich cais am PIP? Beth oedd hyn?**
- 12. Os oedd gennych dystiolaeth arall ar gael roeddech yn teimlo y byddai'n berthnasol, a fydddech yn ystyried cyflwyno hyn fel rhan o'r cais am PIP? Pam?**
- 13. A fydddech yn teimlo'n gyfforddus gyda'r Adran yn rhannu gwybodaeth rhwng systemau budd-daliadau gwahanol neu gyda rhannau eraill o'r llywodraeth, fel y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i gefnogi eich cais am PIP? Esboniwch eich ateb yn fyr.**

Profiad yr hawlydd

Ystyriwch y broses hawlio PIP. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais, yr asesiad a chael penderfyniad.

- 14. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'r broses hawlio? Pam?**
- 15. A fyddai unrhyw beth wedi gwella eich ymgynghoriad wyneb yn wyneb gydag Atos neu Capita? Esboniwch eich ateb yn fyr.**
- 16. A wnaethoch chi ofyn i DWP ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ar eich hawl i PIP? Os felly, dywedwch wrthym am eich profiad o'r broses ailystyried.**
- 17. A wnaethoch chi apelio eich penderfyniad PIP? Os felly, dywedwch wrthym am eich profiad o'r broses apelio.**
- 18. A ydych chi wedi cael profiad o asesiadau tebyg eraill (e.e. asesiad gofal cymdeithasol, asesiad iechyd galwedigaethol, Asesiad Gallu i Weithio ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth)? Sut wnaethant gymharu?**
- 19. A yw eich dyfarniad PIP wedi cael effaith ar eich gallu i aros yn, neu ddychwelyd, i gyflogaeth? Esboniwch eich ateb yn fyr.**
- 20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrth y tîm adolygu?**

Cwestiynau ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd â diddordeb proffesiynol yn y broses PIP

Amdanoch chi

1. Ydych chi'n ymateb fel:

- **Unigolyn?**
 - **Gweithiwr proffesiynol gofal iechyd**
 - **Staff Atos neu Capita**
 - **Staff DWP**
 - **Arall? Nodwch**
 - **Well gen i beidio â dweud**

- **Sefydliad neu ran o sefydliad**
 - **Enw'r sefydliad?**
 - **Pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli?**
 - **Lle y bo'n berthnasol, eglurwch sut y cafodd barn yr aelodau ei chasglu.**
 - **A yw eich sefydliad yn uniongyrchol yn cefnogi pobl sy'n hawlio PIP?**

2. Efallai y byddwn am ddilyn i fyny mwy o wybodaeth gyda chi neu ddyfynnu eich tystiolaeth yn ein hadroddiad. Os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi, rhowch y manylion canlynol:

- **Enw**
- **Cyfeiriad**
- **E-bost**
- **Rhif ffôn**

Tystiolaeth bellach

Yn ystod y broses hawlio PIP, gofynnir i geiswyr ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol neu wybodaeth sydd ganddynt eisoes sy'n esbonio eu hamgylchiadau (a elwir yn dystiolaeth bellach). Gall hawlwr anfon tystiolaeth ategol gyda'u ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Gallai hyn gynnwys rhestrau presgripsiwn, cynlluniau gofal, adroddiadau neu wybodaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n cynorthwyo'r hawllydd, fel meddyg teulu, meddyg yn yr ysbyty, nyrs arbenigol, nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol, ymgynghorydd neu weithiwr cymorth.

Os yw'n briodol wrth gynnal asesiad a darparu cyngor ar gais i DWP, gall gweithwyr proffesiynol iechyd Atos a Capita ystyried gofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn eu cynorthwyo gan bobl a restrir ar ffurflen yr hawlydd. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau yn gofyn am ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb, ond gall rhai asesiadau gael eu cwblhau ar sail adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar bapur heb yr angen am ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb gan fod digon o dystiolaeth ar gael.

Rydym yn ymchwilio i ba mor effeithiol y mae tystiolaeth bellach yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r penderfyniad cywir ar y cais a nodi a oes angen ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb, gan archwilio'r cydbwysedd rhwng faint a'r math o dystiolaeth y mae DWP yn ei ffynnonelli a'r hyn y gofynnir i'r hawlydd ddarparu.

3. Yn eich profiad chi, pa fath o dystiolaeth bellach y mae hawlwr yn anfon fel rhan o'u cais?

4. Yn eich profiad chi, pa dystiolaeth bellach y mae Atos/Capita yn gofyn amdanynt ar ran hawlwr? A ofynnir amdanynt ar amser ac a yw'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn deg?

5. A yw'n glir pa dystiolaeth bellach sy'n cael ei ofyn i hawlwr? Esboniwch eich ateb yn fyr.

6. O'ch dealltwriaeth chi, pan fydd hawlwr yn cyflwyno eu cais pa mor bwysig y maent yn credu ei bod i gyflwyno tystiolaeth bellach? Esboniwch eich ateb yn fyr.

7. A oes unrhyw rwystrau i hawlwr wrth ddarparu tystiolaeth bellach? Rhowch enghreifftiau.

8. Yn eich profiad chi, pan fydd hawlwr yn mynd drwy'r system apeladau a ydynt yn cyflwyno tystiolaeth bellach ar yr adeg hon? Pam?

Rhannu data

Rydym yn edrych ar p'un a ddylid rhannu data pellach ar draws DWP a chyda cyrff allanol, fel y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i gefnogi'r broses hawlio a gwella'r gefnogaeth a gynigir i hawlwr. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng systemau budd-daliadau DWP, er enghraifft, rhannu adroddiadau Asesiad Gallu i Weithio diweddar gyda gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar PIP. Gallai hefyd gynnwys casglu gwybodaeth o asesiadau gofal cymdeithasol neu ddarparwyr gofal iechyd. Byddai angen i'r wybodaeth bersonol fod yn ddarostyngedig i ddiogelu data priodol, fel y nodir yn [Siarter Gwybodaeth Bersonol DWP](#).

9. Ydych chi'n ymwybodol o dechnoleg y dylai DWP ystyried ei ddefnyddio i wella'r broses casglu data PIP? Rhowch enghreifftiau neu awgrymiadau.

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ffyrdd penodol y gallai DWP rannu gwybodaeth a gafwyd o'r asesiad PIP gyda sefydliadau eraill i wella gwasanaethau iechyd a gofal? Rhowch enghreifftiau neu awgrymiadau.

11. Yn eich profiad chi, pa mor effeithiol yw systemau cyfredol TG PIP wrth gyflenwi'r broses hawlio PIP? Rhowch enghreifftiau.

Profiad yr hawlydd

Ystyriwch y broses o hawlio PIP. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais, yr asesiad a chael penderfyniad.

- 12. O'ch profiad, sut y gallai'r broses o hawlio PIP gael ei wella? Rhowch enghreifftiau neu awgrymiadau.**
- 13. O'ch profiad, pa effaith y mae dyfarniadau PIP yn ei chael ar allu hawlwr i aros yn, neu ddychwelyd, i gyflogaeth?**
- 14. Sut mae'r broses PIP yn cymharu ag asesiadau tebyg (ESA e.e. asesiad iechyd galwedigaethol)?**
- 15. Yn eich profiad chi, beth yw'r rhesymau mae pobl yn gwneud apêl i'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi (HMCTS) a beth yw eu profiad o'r broses hon? Rhowch enghreifftiau.**

Cynnydd ers yr adolygiad diwethaf

- 16. Ers yr Adolygiad Annibynnol PIP cyntaf, mae DWP wedi gweithredu nifer o'r argymhellion a awgrymwyd. Yn eich profiad chi, sut mae'r newidiadau hyn wedi newid profiad y bobl sy'n mynd trwy'r broses o hawlio PIP?**
- 17. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y broses adolygiad PIP?**